Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 27 Ionawr 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Dirprwy Faer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, Bob Costain, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

171. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Elisabeth Culshaw, June Derry, Rosie Hughes-Moseley, Simeon Jones a Katy Morgan Williams.

172. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

173 ADRODDIAD Y DIRPRWY FAER

Dywedodd y Dirprwy Faer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:
Canmlwyddiant Baton yn y Ganolfan Grefft.

174. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Gŵyl Rhuthun x 2.
Cyng. Sioned Foulkes	Ffrindiau Cae Ddôl.
Cyng. Menna Jones	Grŵp Llifogydd
Cyng. Robert Owen Ellis	Banc Bwyd x 3, Cronfa Llifogydd Glasdir (gyda Llanelwy), Hybu'r Iaith Gymraeg.
Cyng. Anne Roberts	Ymlaen Rhuthun x 2
Cyng. Emrys Wynne	Grŵp Llifogydd yn Llanelwy, Llwybr Celf Rhuthun, Hybu'r Iaith Gymraeg.

175. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2013.*

176. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

177. IS BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

***PENDERFYNWYD:** dderbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2014.*

178. CREIRIAU'R DREF

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau rhyddhau un o'r Creiriau'r Dref – mae yswiriant yn ei le.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau rhyddhau Cwpan Hugh Myddleton i Mr Ivor Richards.*

179. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) CLWB FFERMWYR IFANC RHUTHUN A'R CYLCH

Cyflwynodd Clerc y Dref Gais am Gymorth Ariannol (ynghyd a Chyfrifon Ariannol) gan y Mudiad uchod.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £250.00 i'r Mudiad yma.*

(b) CYMDEITHAS SIOE RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Gymdeithas uchod yn gofyn am gyfraniad tuag at y sioe eleni i'w chynnal ar ddydd Sadwrn, 23 Awst 2014 - mae £500.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma. Darllenwyd e-bost a dderbyniwyd ers hynny yn datgan na fydd y Sioe yn cael ei chynnal eleni ym

Marchnad Ffermwyr Rhuthun oherwydd gwaith adeiladu ond y bwriad fydd cynnal y Sioe'r flwyddyn nesaf.

***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £200.00 i'r Mudiad yma am eleni gyda'r £300.00 wrth gefn i'w gadw ar gyfer Sioe'r flwyddyn nesaf.*

(c) Y SEFYDLIAD, CASTELL RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Gymdeithas uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gost sefydlu ymddiriedolaeth i gymryd drosodd adeiladau'r castell a'r tir.

***PENDERFYNWYD**: gofyn iddynt wneud cyflwyniad i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.*

180. CYDLYNYDD CANOL Y DREF

Rhoddwyd rhagor o fanylion ysgrifenedig i'r aelodau am y post uchod a gofynnwyd iddynt ystyried cais am Gymorth Ariannol ac i hostio'r swydd o fis Medi 2014 ymlaen. Mynegodd yr aelodau ddiddordeb mewn ariannu'r post ar y sail bod aelod ynghlwm a'r prosiect o'r dechrau.

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r swm o £5,000.00 mewn egwyddor i'w gynnwys yng nghyfrif Praesept y Flwyddyn Ariannol nesaf ac i'r Cyng. Robert Owen-Ellis gynrychioli'r Cyngor Tref.*

181. AMCANGYFRIFON ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei amcangyfrifon drafft ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31Mawrth 2015. 'Roedd yn cynnig gwariant o £129,575 (gan gynnwys £30,000 o dan 'Parth y Cyhoedd' a £5,000 o dan 'Cydlynydd Canol y Dref') gydag incwm o £129,225 Praesept a £350 Llogau Buddsoddiad / Banc. Byddai hyn yn rhoddi praesept Band D cyfatebol o £54.92 i'w gymharu â £47.83 y llynedd. Ar ôl trafodaeth ar bob eitem o wariant

***PENDERFYNWYD**: bod y Cyngor yn gwneud praesept o <u>£129,225.00</u> ar Gyngor Sir Ddinbych, sef treth Band D cyfatebol o £54.92 am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2015.*

182. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Rhagfyr 2013.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

183. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

D.U.	B.T.	Teliffon	*	109.15
A.B.	Canda Copying Ltd	Rhentu Ffotogopiwr	*	129.14
507	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
508	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		177.47
509	Cymdeithas Cynghorau Gogledd Cymru	Cinio x 2 – Cyfarfod 24 Ionawr yn Llandudno		29.00
510	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - du a gwyn	*	55.82
511	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - lliw	*	39.64
512	Dafydd Williams	Bwrdd cynhadledd - talwyd gyda cherdyn.	*	128.66
513	Cyngor Sir Ddinbych	Cau Ffyrdd ar gyfer Gorymdaith Lanterni.	*	300.00
514	Zurich Municipal	Premiwm Yswiriant		6,299.23
515	Cyng. Katy Morgan Williams	"Glow sticks" – digwyddiad Nadolig Glasdir		88.91
516	John Tudor	Coed Nadolig - 2013	*	1,740.00
517	Clwb Ffermwyr Ifanc Rhuthun	Cyfraniad		250.00
518	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Cyfraniad		200.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £413.87)

184. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 24 Chwefror 2014.